**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 22 MAI 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr David Powell; Mr Ceri Stradling; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); a Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:45
**Amser Gorffen:** 15:00

**Ymddiheuriadau:** Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon)

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Datganwyd buddiant gan Mr Ceri Stradling mewn perthynas ag Eitem Agenda 8 (Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych), yn cynghori'r Comisiwn ei fod yn byw yn Sir Ddinbych.

1.2. Datganwyd buddiant gan Mr Steve Halsall mewn perthynas ag Eitem Agenda 6 (Arolwg Etholiadol Sir Gaerfyrddin), yn cynghori'r Comisiwn ei fod yn berchen ar eiddo yn Sir Gaerfyrddin.

1.3. **Cytunwyd** bod y buddiannau a ddatganwyd yn rhai de minimis, ac y dylai Mr Stradling a Mr Halsall barhau i gyfranogi yn y cyfarfod.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Diweddarwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ar gynnydd sydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Papur Gwyrdd: Cryfhau Llywodraeth Leol, a'r canlyniadau posibl i gylch gwaith presennol y Comisiwn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2018 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach** – roedd cynnydd yn dal i fynd rhagddo i ymgeisio am y wobr hon, gyda therfyn amser diwygiedig, sef Ebrill 2019.
- **(Mater 3) Adeilad** – roedd trafodaethau ynglŷn â phrydles Tŷ Hastings yn parhau. Mae asiantau, sy'n gweithredu ar ran y Comisiwn, wrthi'n trafod telerau'r brydles newydd gyda'r prydleswr. Mae'r Comisiwn yn parhau i wneud taliadau ffioedd rhent i'r prydleswr yn unol â thelerau'r hen brydles.
- **(Mater 4) Polisïau Adnoddau Dynol** – roedd y gwaith o ddiwygio'r polisïau adnoddau dynol yn mynd yn ei flaen.
- **(Mater 6) Buddsoddwyr mewn Pobl** – mae paratoadau ar gyfer yr ailasesiad yn mynd rhagddynt.

## 5. Cryfhau Llywodraeth Leol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Ebrill 2018 gan y Prif Weithredwr.

5.2. Darparodd yr Adroddiad fersiwn ddiwygiedig o'r ymatebion drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd.

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn gyda'r ymatebion diwygiedig yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol:

- Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad: brawddeg ychwanegol i esbonio cyfyngiadau amser ar gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed yn yr ystadegau etholiadol a ddarperir gan Brif Gynghorau, i'w defnyddio o fewn ein harolygon ni.
- Cwestiwn 12 yr Ymgynghoriad: ychwanegu ymateb, yn ailadrodd ymateb y Comisiwn i gwestiwn 11 yr ymgynghoriad.

5.4. **Cytunwyd** y gellir cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru.

## 6. Arolwg Etholiadol Sir Gaerfyrddin

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 14 Mai 2018 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Rhydaman sy’n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Rhydaman.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol ar gyfer Pontaman.
- Mae’n cyfuno ardaloedd datgysylltiedig ward etholiadol bresennol Pontaman o fewn ffin unigol, unedig.

6.3. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal Caerfyrddin, sy’n cynnwys ward etholiadol arfaethedig:

Gogledd a De Tref Caerfyrddin, a Gorllewin Tref Caerfyrddin.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n dileu’r lefel amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn ward etholiadol bresennol De Tref Caerfyrddin.
- Mae’n cyfuno dwy ward sy’n galluogi cadw canol y dref gyfan o fewn un ward etholiadol.
- Mae’n cytuno â’r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.

6.4. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llanelli sy’n cynnwys wardiau etholadol arfaethedig:

Bigyn, Elli, Glanymôr, Lliedi a Thyisha.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n dileu’r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn wardiau etholiadol presennol Bigyn a Thyisha.
- Mae’n cadw’r un nifer o wardiau etholiadol o gymharu â’r trefniant presennol.
- Cytunodd y Comisiwn i fabwysiadu’r newid ffin a addaswyd gan yr ysgrifenyddiaeth fel y cynnig a ffefrir.

6.5. Cytunodd y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llanelli Wledig sy’n cynnwys wardiau arfaethedig:

Y Bynie, Dafen a Felinfoel, Glyn, Hengoed, Llwynhendy, a Swiss Valley.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n dileu'r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy'n bodoli yn wardiau presennol y Bynie, Dafen a Felinfoel.
- Mae'n osgoi'r angen i gyflwyno wardiau tri aelod yn yr ardal.
- Mae'n cyfuno dwy ardal Dafen a Felinfoel

6.6. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llanedi sy'n cynnwys wardiau arfaethedig:

Hendy a Thycroes.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n dileu'r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy'n bodoli yn ward etholiadol bresennol Hendy.
- Mae'n cadw trefniadau un aelod yn yr ardal.

6.7. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llandybie sy'n cynnwys wardiau arfaethedig:

Llandybie, Penygroes, a Saron.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw trefniant presennol y wardiau etholiadol yn yr ardal.
- Mae'r holl wardiau yn cynnwys lefelau priodol o gynrychiolaeth etholiadol.

6.8. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Porth Tywyn a Phen-bre sy'n cynnwys wardiau arfaethedig:

Porth Tywyn a Phen-bre.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw'r trefniant presennol wardiau etholiadol yn yr ardal.
- Mae'r holl wardiau yn cynnwys lefelau priodol o gynrychiolaeth etholiadol.

6.9. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 3 ar gyfer Cydweli a'r ardal gyfagos, sy'n cynnwys wardiau arfaethedig:

Cydweli a Llanismel, Llangyndeyrn, a Thrimsaran.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae’n dileu’r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn wardiau etholiadol presennol Cydweli a Llangyndeyrn.
- Mae’n osgoi hollti cymunedau yn yr ardal.
- Mae’n osgoi’r angen i gyflwyno wardiau tri aelod yn yr ardal wledig hon.
- Hwn sy’n fwyaf addas i’r ddaearyddiaeth ddynol a’r dopograffeg yn yr ardal.

6.10. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 4 ar gyfer Cynwyl Elfen a’r ardal gyfagos syn cynnwys wardiau etholiadol:

Cynwyl Elfed, Llanboidy, Sanclêr gyda Llansteffan, a Threlech.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:
- Mae’n dileu’r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn wardiau etholiadol presennol Cynwyl Elfed a Sanclêr.
- Mae’n cadw 5 aelod cyffredinol yn yr ardal hon.

6.11. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal Cenarth a Llangeler sy’n cynnwys wardiau arfaethedig:

Cenarth a Llangeler.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:
- Mae’n dileu’r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn ward etholiadol bresennol Llangeler.
- Mae’n cytuno â’r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.

6.12. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer Cilycwm, Cynwyl Gaeo a’r ardal gyfagos sy’n cynnwys wardiau arfaethedig:

Cilycwm, Llanymddyfri, Llanfihangel-ar-Arth, Llanybydder, a Maenordeilo a Salem.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:
- Mae’n dileu’r lefelau amhriodol o amrywio etholiadol sy’n bodoli yn ward etholiadol bresennol Cilycwm a Chynwyl Gaeo.
- Mae’n creu’r aflonyddu lleiaf o’r trefniadau presennol.

6.13. Bydd yr enwau arfaethedig yn cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg i gael sylwadau. Bydd drafft o’r Adroddiad Cynigion Drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

**7.** Arolwg Etholiadol Sir Benfro

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Mai 2018 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. **Derbyniodd** y Comisiwn yr Adroddiad Drafft gyda mân ddiwygiadau

7.3. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig

7.4. Bydd y Swyddog Arolygon yn rhoi'r broses Sicrhau Ansawdd ar waith ar ôl gwneud y diwygiadau.

**8.** Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mai 2018 gan y Swyddog Arolygon.

8.2. **Derbyniodd** y Comisiwn yr Adroddiad Drafft gyda mân ddiwygiadau

8.3. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig

8.4. Bydd y Swyddog Arolygon yn rhoi'r broses Sicrhau Ansawdd ar waith ar ôl gwneud y diwygiadau.

**9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mai 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. Ystyriodd a **Chytunodd** y Comisiwn y newidiadau o'r cyfarfod blaenorol. Nodwyd bod y dyddiadau a roddwyd ar gyfer yr Amcanion Corfforaethol yn ymwneud â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod y dyddiadau a roddwyd ar gyfer yr Amcanion Corfforaethol yn ymwneud â'r flwyddyn flaenorol, a bod angen eu diweddaru ar gyfer y flwyddyn gyfredol. **Cytunwyd** y byddai'r dyddiadau yn y gofrestr risg yn cael eu gwirio a'u diweddaru fel bo'r angen. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd angen mwyach i gofnodi camau lliniaru a oedd wedi'u cwblhau ar y gofrestr risg. **Cytunwyd** y dylai camau lliniaru wedi'u cwblhau gael eu dileu.

9.3. Roedd y Comisiwn o'r farn p'un a ddylid cynyddu risg weithredol OP21 ynglŷn â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel yr awgrymwyd gany Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. **Cytunodd** y Comisiwn y dylai risg weithredol OP21 barhau ar y gofrestr risg weithredol oherwydd y gwaith a wnaed i roi'r gweithdrefnau

angenrheidiol ar waith a oedd yn darparu camau lliniaru sylweddol. Fodd bynnag, **Cytunwyd** y dylid adolygu'r risg yn gyson.

9.4. CR1 – **Cytunodd** y Comisiwn i ddileu'r ail frawddeg yn y disgrifiad o'r risg, ac i adolygu'r risg ym mis Hydref er mwyn ystyried p'un a ellir gostwng y sgôr risg.

9.5. CR2 – **Cytunodd** y Comisiwn i gynyddu'r risg weddilliol o 12 i 16 oherwydd y sefyllfa barhaus gyda recriwtio staff, sef y Prif Weithredwr a'r Secondeion Swyddogion Arolygon newydd. Cam lliniaru newydd i'w ychwanegu mewn perthynas â recriwtio'r Swyddogion Arolygon newydd, a dylid ychwanegu aelodau'r Comisiwn at y gofrestr fel perchenogion risg yn ychwanegol at y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

9.6. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cynhyrchu fersiwn newydd o'r Gofrestr Risg ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn a fyddai'n cael ei diweddaru i adlewyrchu amcanion corfforaethol y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn dileu unrhyw gamau lliniaru wedi'u cwblhau.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mai 2018 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** bod adroddiad cyllideb ar adnoddau yn ogystal ag arian wedi'i gynhyrchu fel y cytunwyd yn flaenorol.

10.2. Ystyriodd y Comisiwn y ddau adroddiad a nododd y tanwariant ar gyfer y ddau. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'n fuddiol pe bai cysoni byr yn y dyfodol rhwng y ddau adroddiad a oedd yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau gwariant adnoddau ac arian.

10.3. **Nodwyd** a **Derbyniwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 11. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2018

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r prif ystyriaethau a'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor.

## 12. Cyfrifon Blynyddol 2017-18 - Effaith Safonau Cyfrifyddu nad ydynt wedi dod i Rym eto

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a bod cyfrifwyr y Comisiwn wedi cadarnhau nad oedd unrhyw effaith ar gyfrifon blynyddol 2017-18 yn deillio o newidiadau i IAS 7. Byddai rhoi newidiadau ar waith i IFRS 16 yn effeithio ar y modd yr oedd y Comisiwn yn cyfrif am brydlesi, ond byddai hyn yn cael ei ystyried yn agosach at ei ddyddiad gweithredu ar gyfer cyfrifon 2019-20.

## 13. Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2017-18

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

13.2. **Cytunodd** y Comisiwn y dylid ychwanegu rhagor o wybodaeth at yr adran Safonau gweithredol, **Cytunodd** y Comisiwn yr adroddiad ar ôl gwneud y mân ddiwygiad hwn.

## 14. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

14.2. **Nododd** y Comisiwn fod Helen Morris o Lywodraeth Cymru wedi’i phenodi fel Swyddog Diogelu Data’r Comisiwn.

14.3. **Nododd** y Comisiwn y risg weithredol y gellid derbyn cais am wybodaeth gan aelod o’r cyhoedd cyn bod systemau’r GDPR ar waith yn llawn, ac y gellid ychwanegu hwn at y gofrestr risg gorfforaethol pe bai gofyn.

## 15. Cynllun Gweithredol 2018-19

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 11 Mai 2018 gan y Prif Weithredwr.

15.2. **Cytunodd** y Comisiwn yr adroddiad gyda mân ddiwygiadau.

## 16. Adroddiad Cynnydd Trawsnewid TGCh

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

16.1. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r Cytundeb Terfynol rhwng Cymwysterau Cymru a'r Comisiwn, a'i fod wedi'i anfon at yr archwilwyr i'w ystyried.

16.2. **Awdurdododd** y Comisiwn y Prif Weithredwr i lofnodi'r Cytundeb Terfynol.

**17. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

17.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

17.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

**18. Calendr Digwyddiadau**

18.1. **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

**19. Unrhyw Fusnes Arall**

19.1. Adroddwyd bod yr Wythnos Democratiaeth Genedlaethol yn dechrau ar 3 Gorffennaf 2018. **Nodwyd** nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi'u cynllunio gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn ystyried mynychu digwyddiadau priodol yng Nghymru. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyhoeddi'r digwyddiad ar y wefan ac yn y cyfryngau cymdeithasol.

19.2. Rhoddodd i Dirprwy Brif Weithredwr ddiweddariad ar gynnydd Arolwg 2018 y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ac adroddodd y byddai eu hargymhellion yn cael eu cyflwyno i Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ym mis Medi 2018.

19.3. Rhoddwyd diweddariad yn dilyn cyfarfod a fynychwyd gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â threfniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Mehefin 2018 yn dechrau am 8:30 am.**